**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/LN/0038/26 / MA/LN/0583/26

Yr Athro Dylan E Jones
Cadeirydd
Dysgu

27 Mawrth 2026

Annwyl Dylan

**Cefnogaeth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau Dysgu yng Nghymru: 2026-27 (llythyr ariannu diweddaredig)**

Yn dilyn y llythyr ariannu cychwynnol a gyflwynwyd ar 10 Mawrth 2026, a gadarnhaodd gyllideb adnoddau a setliad cymorth grant ar gyfer Dysgu o £15,775,000 yn 2026-27, dymunaf gadarnhau swm ychwanegol o £550,000 ar gyfer dysgu proffesiynol a chefnogaeth mewn perthynas ag ymarfer sy'n ystyriol o drawma.

Gyda'r cyllid ychwanegol hwn, mae cyfanswm o £16,325,000 wedi ei gymeradwyo. Dyma'r terfyn adnoddau y gall Dysgu ysgwyddo gwariant hyd ato yn y flwyddyn ariannol dan sylw.

Y setliad cymorth grant ar gyfer 2026-27 yw £16,325,000. Dyma lefel y cymorth grant arian parod y gellir ei hawlio oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol.

Nid oes cyllideb ar gyfer gofynion heb fod yn arian parod a dibrisiant wedi'i nodi ar hyn o bryd, ac nid oes gwybodaeth ar gael am unrhyw arian parod a gadwyd ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025-26. Bydd angen adrodd am y rhain a'u hadlewyrchu maes o law.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Lynne Neagle AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Mae'r gyllideb adnoddau a'r setliad cymorth grant wedi'u nodi yn y tabl canlynol:

| | Cyfanswm y gyllideb adnoddau net |
|---|---|
| | 2026 – 2027 |
| | £ |
| Alldro adnoddau net: | |
| Refeniw (net) | 16,325,000 |
| Heb fod yn arian parod (dibrisiant) | 0 |
| Cyfalaf (net) | 0 |
| Cyfalaf AME | 0 |
| | |
| **Cyfanswm y gyllideb adnoddau** | **16,325,000** |
| | |
| Addasiadau Cymorth Grant: | |
| | |
| Cyfanswm y gyllideb adnoddau | 16,325,000 |
| *Llai* Heb fod yn arian parod (dibrisiant) | (0) |
| Dyledwyr/Credydwyr | 0/(0) |
| *Llai* Arian parod a gadwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol | (0) |
| | |
| **Cyfanswm y cymorth grant arian parod** | **16,325,000** |
| | |

Lesoedd rhyng-grŵp

Ar gyfer lesoedd rhyng-grŵp, lle mae'r eiddo naill ai dan berchnogaeth neu'r brif les yn cael ei dal gan endid arall o fewn ffin cyllideb llywodraeth ganolog Llywodraeth Cymru, ni ddylai fod cyllideb IFRS16. Bydd hyn yn wir am Dysgu a fydd yn prydlesu gofod swyddfa o fewn adeilad Llywodraeth Cymru. At ddibenion cyllidebu, bydd y les yn cael ei thrin fel les weithredol ac mae'r gyllideb refeniw yn cwmpasu taliadau les. Y rheswm am hyn yw y bydd yr eiddo/prydles eisoes yn sgorio i gyllidebau yn llawn gan Lywodraeth Cymru sy'n berchen ar y brif les.

**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

IFRS16: cyfrif am lesoedd yn y sector cyhoeddus o dan y "Consolidated Budgeting Guidance" (CBG) a'r FreM

Er nad yw Dysgu yn dilyn y FreM ac nad yw wedi mabwysiadu IFRS16, rhaid cyllidebu ac adrodd yn gyson am holl weithgareddau'r sector cyhoeddus; mae hyn yn golygu gwneud hynny o dan y CBG a'r FreM, a bydd yn cynnwys addasu lesoedd ar gyfer IFRS16. Rhowch wybod i'ch tîm Partneriaeth am unrhyw newidiadau i drefniadau prydlesu.

**Telerau ac amodau ariannu**

Mae'r llythyr cylch gwaith a'r ddogfen fframwaith a ddyroddwyd i Dysgu yn nodi gofynion gweithredol amrywiol ac yn cyfeirio at ganllawiau a pholisïau llywodraeth y mae angen i Dysgu gydymffurfio â nhw, yn ogystal â'i ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau ei hun fel sefydliad cyhoeddus yng Nghymru.

Mae Atodiad A yn nodi diben y cyllid a ddarperir i Dysgu ar gyfer 2026-27, ac mae'n nodi blaenoriaethau a gofynion yn ychwanegol at y blaenoriaethau strategol a'r gofynion gweithredol sydd yn y llythyr cylch gwaith a'r ddogfen fframwaith.

**Cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn**

Efallai y bydd cyllid ychwanegol pellach ar gael i Dysgu yn ystod y flwyddyn os nodir gweithgareddau ychwanegol i'w trosglwyddo i'w cyflwyno gan Dysgu cyn Ebrill 2027. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Dysgu i adnabod gweithgareddau o'r fath.

**Trefniadau partneriaeth a hawliadau**

Mae eich tîm partneriaeth yn Llywodraeth Cymru yn cael ei arwain gan Ddirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Ymarferwyr Ysgolion, a'ch pwynt cyswllt arferol o fewn y tîm yw'r Pennaeth Polisi Arweinyddiaeth Ysgolion. Bydd trefniadau goruchwylio a monitro priodol parhaus yn cael eu cytuno gyda'r tîm partneriaeth, yn unol â'r ddogfen fframwaith.

Mae'r ddogfen fframwaith yn nodi ei bod yn ofynnol i Dysgu, mewn ymateb i'r llythyr ariannu, "lunio cynllun gweithredol blynyddol yn nodi lefel y gwasanaeth a sicrheir mewn meysydd allweddol a'r wybodaeth am berfformiad ac allbwn a gaiff ei chasglu er mwyn monitro cynnydd. Caiff y cynllun gweithredol ei lywio gan lythyr cylch gwaith y Gweinidog, tymor cynllun busnes y Llywodraeth a'r cyllid y cadarnhawyd ei fod ar gael." Mae hyn yn amodol ar gytundeb gweinidogol trwy'r tîm partneriaeth. Bydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

angen diweddaru'r cynllun gweithredol i adlewyrchu'r cyllid a'r gweithgareddau pellach.

Dylid hawlio cyllid yn fisol gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ynghlwm yn Atodiad B. Bydd y tîm partneriaeth yn cytuno gyda chi ar ffurflen fonitro, gan gynnwys targedau a dangosyddion adrodd manwl. Yn ogystal â hyn, bydd angen i Dysgu ymgysylltu â pherchnogion polisi ar gyfer y meysydd gweithgarwch a ariennir i drafod cynnydd yn erbyn blaenoriaethau a gofynion, ac i gynllunio gofynion yn y dyfodol.

Bydd angen i chi hefyd gytuno â'r tîm partneriaeth ar amserlen taliadau grant, yn seiliedig ar broffilio pryd y bydd angen gwariant yn ystod y flwyddyn.

Yn gywir



**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Atodiad A: Diben y cyllid

Darperir £16,325,000 i Dysgu i ariannu ei strwythur staffio craidd, ei weithrediadau, a'i raglenni a'i weithgareddau. Bydd angen i Dysgu flaenoriaethu a dyrannu'r cyllid hwn, yn seiliedig ar ei lythyr cylch gwaith a thrafodaeth barhaus gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar feysydd lle mae angen darpariaeth, ac yn seiliedig ar waith dylunio sefydliadol i sefydlu'r strwythur staffio mwyaf effeithiol i gyflawni ei amcanion.

Disgwylir i'r cyllid hwn gynnwys amser staff a gwariant rhaglenni yn y meysydd gweithgaredd a restrir isod; nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol.

### Meysydd gweithgaredd

- Datblygu trefniadau sicrhau ansawdd a gwerthuso effaith ar gyfer darpariaeth Dysgu, a gweithio gyda swyddogion polisi Llywodraeth Cymru, partneriaid a rhanddeiliaid i sicrhau bod datblygiad proffesiynol a dysgu proffesiynol yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru, yn cael ei arwain gan ymchwil, yn canolbwyntio ar ymarfer, yn gynhwysol, ac yn ymatebol i anghenion ymarferwyr ac arweinwyr ysgolion a lleoliadau a chynghorwyr gwella, ac yn cwrdd â'r blaenoriaethau cenedlaethol a nodwyd i gefnogi dysgwyr i wneud cynnydd ym mhob lleoliad lle mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cael ei gyflwyno (gan gynnwys ysgolion, Unedau Cyfeirio Disgyblion, lleoliadau AHY a lleoliadau meithrin nas cynhelir).

- Cyflwyno'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth a darpariaeth bellach ar gyfer darpar arweinwyr canol ac uwch arweinwyr, a rhai newydd a phrofiadol; adolygu a mireinio'r llwybr dysgu proffesiynol ar gyfer arweinwyr gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi gan fentor a bod cyfleoedd iddynt ddatblygu arbenigedd mewn ystod o feysydd, gan gynnwys hunanwerthuso effeithiol a chynllunio gwella, gyda chefnogaeth i arweinwyr gwaith ieuenctid fel y bo'n briodol.

- Cyfrannu at ddatblygu a chyflwyno'r rhaglen sefydlu ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso (cyflwynir y ddarpariaeth gan awdurdodau lleol, wedi ei hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Gyngor y Gweithlu Addysg) er mwyn datblygu Llwybr Gyrfa Gynnar strwythuredig i gefnogi athrawon yn ystod eu haddysg gychwynnol athrawon (AGA) a'u 3-4 blynedd gyntaf o addysgu.

- Cyfrannu at ddatblygu a chyflwyno'r Llwybr Dysgu Cynorthwywyr Addysgu (cyflwynir y ddarpariaeth gan bartneriaeth o awdurdodau lleol, wedi ei hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy'r LAEG) ac adolygu a mireinio'r llwybr dysgu proffesiynol ar gyfer cynorthwywyr addysgu i ddarparu cyfleoedd iddynt ddatblygu arbenigedd wrth gefnogi dysgwyr ag ystod o anghenion. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod cynorthwywyr addysgu yn cael eu cefnogi'n llawn i ymgysylltu â'r llwybr.

- Datblygu a chyflwyno dysgu proffesiynol i gefnogi addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg, i gefnogi'r gwaith o weithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) (mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol).

- Datblygu a chyflwyno dysgu proffesiynol i ddatblygu addysgeg effeithiol mewn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, i gefnogi'r gwaith o weithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) (mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a CYDAG).

- Datblygu a chyflwyno dysgu proffesiynol a chyfleoedd i athrawon uwchradd wella eu gwybodaeth bynciol, gan gyd-fynd â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru, i'w galluogi i addysgu'n hyderus ar draws ystod ehangach o bynciau y tu hwnt i'w pynciau arbenigol, yn enwedig mewn meysydd o'r cwricwlwm sy'n flaenoriaeth (mewn partneriaeth â Phrifysgolion a CYDAG).

- Ariannu a rheoli grant ar gyfer Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL) ar gyfer ysgolion, gan gynnwys gofynion ychwanegol o ran data ac adrodd ar effaith, a chyswllt â Llywodraeth Cymru i alluogi dealltwriaeth o effaith y rhaglen ar draws y sector addysg.

- Ariannu a rheoli grant ar gyfer Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol (DARPL) ar gyfer lleoliadau gofal plant a chwarae gan gynnwys y rhai sy'n darparu addysg feithrin. Darparu cymorth i awdurdodau lleol, ymarferwyr ac arweinwyr ar draws y sector gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar (CPEY) i ddatblygu a gweithredu dulliau gwrth-hiliol, gan gryfhau gwybodaeth a dealltwriaeth sector gyfan. Bydd y Cwricwlwm i Gymru yn edefyn aur drwy'r y cymorth hwn. Bydd ddarpariaeth yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddatblygu pecyn cymorth i awdurdodau lleol, cyfres arweinyddiaeth uwch â ffocws, sioeau teithiol rhanbarthol, cefnogaeth barhaus i arweinwyr trwy sesiynau agored rheolaidd, a hyrwyddo adnoddau'n barhaus gan gynnwys y pecyn cymorth *Creu Diwylliant Gwrth-hiliol mewn Lleoliadau*.

- Ariannu a goruchwylio'r radd Meistr a'r Ddoethuriaeth Addysg Genedlaethol, gan gynnwys darparu cymorth ariannol i ymarferwyr cymwys, darparu cyllid i'r bartneriaeth Addysg Uwch ar gyfer datblygu a dylunio'r rhaglenni, ac ymgysylltu â'r bartneriaeth Addysg Uwch i fonitro a chyfrannu at ddatblygiad a chyflawniad parhaus y rhaglenni. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yr MA a'r EdD yn ategu cynnig ehangach Dysgu, ac yn ffurfio rhan o lwybrau dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth gydlynol i ymarferwyr .

- Gan adeiladu ar y canllawiau Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol mewn addysg, darparu dysgu proffesiynol a chymorth ymarferol i gynorthwywyr addysgu, athrawon ac arweinwyr ar defnydd effeithiol a phriodol o dechnoleg ddigidol i gefnogi addysgu a dysgu ac i leihau llwyth gwaith.

- Dysgu proffesiynol ar gyfer datblygu ymarfer a myfyrio, ac ymgorffori addysgeg ar draws yr holl ddysgu proffesiynol, yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth o ddatblygiad plant a phobl ifanc, ac addysgeg sy'n briodol i ddatblygiad.

- Dysgu proffesiynol, wedi'i gwmpasu a'i gynllunio mewn partneriaeth â'r Tîm Gwella Addysg, i alluogi gweithredu'r Canllawiau Gwella Ysgolion trwy gefnogi hunanwerthuso a chynllunio gwella mewn ysgolion (gan gynnwys gwerthuso trwy ymholi cydweithredol), a datblygu arweinyddiaeth system.

- Cydlynu ac ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru, Adnodd a Chymwysterau Cymru i sicrhau bod dysgu proffesiynol priodol ar gael i gefnogi cyflwyno cymwysterau newydd.

- Datblygu a sicrhau ansawdd adnoddau a thudalennau datblygu proffesiynol a dysgu proffesiynol ar Hwb, gan weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i adolygu a diweddaru mewn meysydd sydd o flaenoriaeth.

- Ariannu a rheoli grantiau ar gyfer 8 dyfarniad o dan raglen cymorth grant y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer llythrennedd a rhifedd.

- Cynghorwyr proffesiynol llythrennedd a rhifedd ar secondiadau i arwain ar ddysgu proffesiynol o fewn y meysydd hyn, gan gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru.

- Datblygu, cyflwyno a sicrhau ansawdd ar gyfer rhaglen dysgu proffesiynol anghenion dysgu ychwanegol genedlaethol ar gyfer staff awdurdodau lleol, arweinwyr, cydlynwyr ADY, staff arbenigol a'r holl staff addysgu mewn partneriaeth â thîm ADY Llywodraeth Cymru, er mwyn galluogi cyflwyno'r system ADY ac addysg gynhwysol, ac i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY, gan alinio â'r Cwricwlwm i Gymru,  a Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, gan adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol.

  Bydd eitemau craidd i'w cyflawni ym mlwyddyn 1 yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gyflwyno cynllun gweithredu i amlinellu'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno rhaglen hyfforddi ADY genedlaethol erbyn Mehefin 2026, gan nodi pethau i'w cyflawni yn ystod blwyddyn 1 a chynllun gwariant 2026-27.

- Datblygu a pharhau i gyflwyno'r rhaglen Dosbarth Braf, Meddwl Bywiog gan sicrhau ffocws cryf ar ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o bwysigrwydd datblygiad plant a phobl ifanc wrth gefnogi datblygiad cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol a chorfforol.

- Comisiynu a chyflwyno rhaglen gynhwysfawr i alluogi pob ysgol a gynhelir (cynradd, uwchradd, UCDau ac ysgolion arbennig) yng Nghymru i weithredu a gwreiddio ymarfer sy'n ystyriol o drawma. Bydd hyn yn cefnogi ysgolion i leihau effaith negyddol profiadau trawma a chefnogi deilliannau iechyd meddwl a iechyd corfforol positif i ddysgwyr a staff. Dylai'r rhaglen fod ar sail dull perthynol, wedi alinio â'r fframwaith NYTH a'r Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Iechyd Meddwl a Llesiant, gan bwysleisio rôl hanfodol oedolion sydd ar gael yn emosiynol er mwyn adeiladu perthnasoedd positif, ymddiriedol ar draws cymunedau ysgolion.

Ar draws tair blynedd (2026-27 i 2028-29), bydd y rhaglen yn cyflwyno rhaglen o hyfforddiant a datblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon a thimau arwain ysgolion. Caiff hyn ei gyflwyno drwy fodel clwstwr, gan sicrhau bod pob ysgol yn cael cefnogaeth i integreiddio arferion sy’n ystyriol o drawma i’w diwylliant a’u ymarfer beunyddiol, a bod gan ymarferwyr fynediad at wybodaeth arbenigol a set gynhwysfawr o adnoddau i weithredu’r strategaethau hyn yn effeithiol yn y dosbarth ac yn amgylchedd ehangach yr ysgol.

Drwy feithrin arbenigedd a darparu cefnogaeth barhaus, dylai’r rhaglen anelu i osod ysgolion fel arweinwyr a modelau rôl ym maes ymarfer sy’n ystyriol o drawma. Dylai’r fenter ategu polisïau presennol, gan gynnwys Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant y Cwricwlwm i Gymru, y Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Iechyd Meddwl a Llesiant, a strategaethau i wella presenoldeb a chyrhaeddiad. Dylai’r fenter alinio â Rhaglen Strategaethau ar gyfer Diogelwch a Llesiant Canolfan Anna Freud, gan greu fframwaith cydlynol ar gyfer hybu iechyd meddwl a iechyd emosiynol ar draws ysgolion yng Nghymru.

**Blaenoriaethau a gofynion ychwanegol**

Mae’r llythyr cylch gwaith a’r ddogfen fframwaith yn gosod allan y blaenoriaethau strategol a’r gofynion gweithredol ar gyfer Dysgu. Yn ychwanegol at hyn, ac yn ychwanegol at gyflawni ar ddibenion y cyllid fel y’u hamlinellir uchod, yn ystod 2026-27 bydd angen i Dysgu weithredu ar y canlynol:

- Yn ogystal â'r trefniadau monitro sydd i'w cytuno gyda'r tîm partneriaeth, ymgysylltu â pherchnogion polisi o fewn y Gyfarwyddiaeth Addysg ar gyfer meysydd gweithgaredd Dysgu, i drafod cynnydd yn erbyn blaenoriaethau a gofynion Llywodraeth Cymru, ac i gynllunio gofynion ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys trosglwyddo'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol ar gyfer Dylunio Cwricwlwm ac Asesu a chynghorwyr proffesiynol ar secondiad, gofynion ynghylch dysgu proffesiynol ar ddiogelu, a chefnogaeth yn y dyfodol ar gyfer gwaith ieuenctid.

- Ymgysylltu â swyddogion polisi Llywodraeth Cymru, ymarferwyr a rhanddeiliaid ehangach (gan gynnwys, ond nid yn unig, Adnodd, Estyn ac ALlau) i archwilio meysydd ychwanegol posibl ar gyfer cefnogaeth, i'w datblygu yn y blynyddoedd i ddod, y tu hwnt i'r hyn a gynigir yn 2026-27, gan gynnwys unrhyw ddysgu proffesiynol ychwanegol y gallai fod ei angen ar ddylunio'r cwricwlwm ac asesu (gan gynnwys galluogi dysgu), llythrennedd, rhifedd, addysg rhyw a pherthnasoedd a’r Dyniaethau.

- Ymgysylltu ag Adnodd i feithrin dealltwriaeth o anghenion y sector ac i sicrhau aliniad agos rhwng y dysgu proffesiynol y byddwch yn ei ddatblygu, a gwaith Adnodd wrth gomisiynu adnoddau addysg a deunyddiau ategol. Byddwch yn chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu ar y cyd ag ysgolion a lleoliadau, a rhanddeiliaid ehangach, i sicrhau cynllunio cydlynus tra'n lleihau'r beichiau ar ysgolion.

- Bydd holl staff Dysgu yn ymgymryd â'r hyfforddiant Cymorth Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Dylunio Cwricwlwm ac Asesu i sicrhau disgwyliadau cydlynol yn yr holl ddysgu proffesiynol a ddylunnir wedyn trwy Dysgu.

- Ymgorffori ymarfer cynhwysol, cefnogi dysgwyr gydag ADY, a dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau sy'n ymwneud ag ADY a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, ar draws rhaglenni perthnasol, gan gynnwys o fewn arweinyddiaeth a llwybrau gyrfa gynnar.

- Ymgorffori dealltwriaeth o feysydd sy'n gysylltiedig â thegwch, gan gynnwys creu amgylcheddau dysgu teg a chynhwysol, mynd i'r afael ag ymddygiad dysgwyr, diogelu ac egwyddorion gwrth-hiliol, ar draws rhaglenni perthnasol.

- Byddwch yn ymgysylltu â sefydliadau a ariennir drwy raglen cymorth grant y Cwricwlwm i Gymru (yn ôl yr angen) i sicrhau bod dysgu proffesiynol a ddatblygir fel rhan o'r cymorth hwnnw yn addas i'r diben.

- Bydd eich Cynghorwyr Proffesiynol ar secondiad ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn gweithio'n agos gyda swyddogion polisi Llywodraeth Cymru, sefydliadau sy'n darparu cymorth i ysgolion a lleoliadau drwy raglen cymorth grant y Cwricwlwm i Gymru, ac arweinwyr awdurdodau lleol ar gyfer llythrennedd a rhifedd, i sicrhau cydlyniant a chyfathrebu effeithiol ag ysgolion a lleoliadau ynghylch y cymorth sydd ar gael.

- Byddwch yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn i gynllunio'r gwaith pellach o drosglwyddo cymorth a ariennir gan grant, sy’n ymwneud â dysgu proffesiynol, i Dysgu.

- Casglu tystiolaeth feintiol ar broffiliau demograffig a rolau ymarferwyr sy'n manteisio ar ddarpariaeth Dysgu.

# Atodiad B

**Ffurflen Hawlio Cymorth Grant ac Adrodd ar Fonitro Cynnydd**

Dylai'r tîm partneriaeth lenwi (a), (b) ac (c) a gofyn i'r corff cyhoeddus gwblhau (d), (e) ac (f).
**Enw'r Hawlydd (sefydliad):** Dysgu
**Manylion cyswllt yr hawlydd**:
**Blwyddyn ariannol:** 2026-27
**Cyfnod Hawlio:**

| **Hawlio Cymorth Grant Arian Parod** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymorth Grant Arian Parod a ddyfarnwyd (a)** | **Cymorth Grant Arian Parod a hawliwyd hyd yma (b)** | **Balans y Cymorth Grant Arian Parod a ddyfarnwyd (c)** *(a-b)* | **Taliadau sy'n Ddyledus (d)** | **Arian parod a ddelir yn y banc ac mewn llaw (e)** | **Cymorth Grant Arian Parod a hawliwyd (f)** *(d-e)* |
| **Blwyddyn Ariannol 20YY-20YY** | **Blwyddyn Ariannol 20YY-20YY** | **Blwyddyn Ariannol 20YY-20YY** | **dd/mm/bb i dd/mm/bb** | | **Cyfnod Hawlio o dd/mm/bb i dd/mm/bb** |
| **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | |
| | | | | | |
| | | | | | |

Cymorth grant arian parod yw'r arian parod sydd ar gael i Dysgu ei dynnu i lawr i wneud taliadau pan fyddant yn ddyledus. Ni cheir tynnu cymorth grant arian parod i lawr cyn bod ei angen gan fod cadw symiau gormodol o arian parod yn ddefnydd aneffeithlon o gyllid cyhoeddus. Rhaid cadw unrhyw gymorth grant nas gwariwyd a gedwir bob mis ac ar ddiwedd y flwyddyn o fewn 4% a 2%, yn eu trefn, o gyfanswm y cymorth grant arian parod a ddyfarnwyd ar gyfer y flwyddyn honno.

**Monitro: Cyllideb Gyffredinol**
**Monitro cyllidebu adnoddau**

| Pennawd Gwariant | Alldro Adnoddau a Ragwelir | | | | | | | | | | | | | Cyllideb | Amrywiant o'r Gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Aws | Med | Hyd | Tach | Rha | Ion | Chw | Maw | Cyfanswm | Cyfanswm | |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Refeniw** | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Heb fod yn arian parod** | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfalaf** | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Incwm arall (ac eithrio llog banc)** | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Llog banc (net)** | | | | | | | | | | | | | | Amh. | Amh. |

Yr Alldro Adnoddau yw'r gwariant refeniw a chyfalaf net y mae Dysgu yn disgwyl adrodd arno yn ei gyfrifon adnoddau ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'n cynnwys elfennau arian parod a rhai nad ydynt yn arian parod, e.e. dibrisiant ac addasiadau cyfrifyddu eraill. Mae gofynion adrodd a mesurau rheoli fframwaith Gwariant Cyhoeddus y DU yn gymwys i'r gyllideb Adnoddau.

Dylid rhoi'r gwariant gwirioneddol yr aed iddo yn lle rhagolygon pob cyfnod monitro ar gyfer y misoedd blaenorol a dylid rhoi incwm arall yn lle incwm sydd i'w dderbyn.

Dylid hefyd ystyried effaith y symiau gwirioneddol ar y rhagolygon sy'n weddill, a diweddaru'r rhagolygon sy'n weddill yn unol â hynny.

Yng Nghymru, mae gennym Orchymyn Derbyniadau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n atal unrhyw endid sydd wedi'i ddynodi gan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllideb a Chyrff Dynodedig) rhag cadw llog banc a rhaid i'r corff ildio unrhyw log banc net (net rhag costau) drwy Lywodraeth Cymru i Gronfa Gyfunol Cymru ar ddiwedd y flwyddyn.

**DATGANIAD**

Rwyf drwy hyn yn gwneud hawliad ar ran Dysgu am gymorth grant.

a) Rwyf yn cadarnhau hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, fod y swm a hawlir o fewn y terfynau gwariant a gymeradwywyd.
b) Rwyf yn cadarnhau nad yw Dysgu yn cael unrhyw gyllid arall oddi wrth unrhyw sefydliad arall (gan gynnwys ffrydiau cyllid eraill Llywodraeth Cymru) i gefnogi'r gwariant a nodir yn yr hawliad hwn. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau sydd yn yr arfaeth. ***/*** Rwyf yn cadarnhau bod Dysgu yn cael a/neu wedi gwneud cais am gyllid cyfalaf a/neu refeniw arall i gefnogi'r gwariant a nodir yn yr hawliad hwn - ceir manylion dros y dudalen*.

*Dileer fel y bo'n briodol

| **Datganiad** | |
|---|---|
| Llofnod: | Dyddiad: |
| Enw (Mewn priflythrennau): | Swydd: |

Caiff yr wybodaeth rydym wedi'i chasglu gennych ei rhannu ag asiantaethau atal twyll a fydd yn ei defnyddio er mwyn atal twyll a gwyngalchu arian ac i gadarnhau pwy ydych. Os canfyddir twyll, gellid gwrthod rhai gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth ichi yn y dyfodol. Gallwch gael rhagor o fanylion ynghylch sut y byddwn ni a'r asiantaethau atal twyll hyn yn defnyddio eich gwybodaeth, ac ynghylch eich hawliau diogelu data, drwy gysylltu â SwyddogDiogeluData@llyw.cymru

**Rhaid i'r ffurflen hon gael ei llenwi gan y sefydliad, a'i dychwelyd i:** Tîm Partneriaeth.
**Cyflwynwch eich hawliad erbyn:** [dyddiad]

**Cyllid arall sy'n ategu'r gwariant a nodir yn yr hawliad hwn**

| **Y math o gyllid a'i ddiben** | **Swm y cyllid a gafwyd/y gwnaed cais amdano** | **% o gost y swydd/yr eitem cyfalaf** | **Ffynhonnell y cyllid** | **A gafwyd cyllid neu a oes cais yn yr arfaeth?** |
|---|---|---|---|---|
| *E.e. 3 swydd swyddog datblygu llawnamser* | *£150,000* | *100% ‘* | *Y Gronfa Loteri Fawr* | *Cafwyd* |
| *Prynu cyfarpar cyfalaf* | *£30,000* | *70%* | *Banc Barclays* | *Cais yn yr arfaeth* |